Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Pwyllgor Dethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
# Cylch gorchwyl yr ymchwiliad cyntaf

**Cylch gwaith yr ymchwiliad**

Bydd Pwyllgor Dethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ystyried y llwybrau ymholi canlynol:

1. Beth yw effaith gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl ifanc 18-25 oed?
2. Pa welliannau y mae eu hangen, os o gwbl, yn y ddarpariaeth o wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed?

**Rhesymeg**

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw arweinydd portffolio Cymru gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc, ac ochr yn ochr â'r Prif Gwnstabl mae wedi ymrwymo i barhau â rhaglen ysgolion Heddlu Dyfed-Powys wedi'i hadnewyddu yn dilyn tynnu cyllid Llywodraeth Cymru yn ôl ar gyfer SchoolBeat Cymru.
- Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi gosod ei weledigaeth ar gyfer gwasanaeth heddlu newydd i blant a phobl ifanc: *Gwasanaethau plismona cynhwysol ac arloesol a ddarperir i blant a phobl ifanc (hyd at 25 oed) mewn lleoliadau addysg a chymunedau, sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn magu hyder yn yr heddlu.*
- Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Heddlu Dyfed-Powys wedi'i sefydlu i ddatblygu gwasanaeth ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar gyfer plant oedran ysgol; sef y rhai dan 18 oed.
- Fodd bynnag, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn bwriadu ehangu gwasanaethau ymyrraeth ac atal ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gefnogi pobl ifanc 18-25 oed, sydd yn y coleg, yn y brifysgol, neu'r rhai nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant.
- Felly, cynigir, er bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar wasanaethau *plant*, bod ymchwiliad cyntaf Pwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn canolbwyntio ar ofynion gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed.
- Bydd y Pwyllgor Dethol yn cyd-fynd â gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gan sicrhau, unwaith y bydd y gwasanaethau plant ar waith, y bydd gwasanaethau i bobl ifanc 18-25 oed yn dilyn mewn modd effeithiol ac effeithlon.

| **Canlyniad SAND** | Cyfaill beirniadol / creu cipolwg |
|---|---|

**Canlyniadau bwriadedig**

1. Rhoi cipolwg ar effeithiolrwydd y gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed.
2. Ystyried gwelliannau angenrheidiol mewn gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc.
3. Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch y gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc, a/neu yn natblygiad arfaethedig y gwasanaethau hyn.

| |
|---|
| 4. Cyd-fynd â gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Heddlu Dyfed-Powys, gan sicrhau, unwaith y bydd y gwasanaethau plant ar waith, bod y gwasanaethau i bobl ifanc 18-25 oed yn dilyn mewn modd effeithlon ac effeithiol. |
| **Amcanion a nodwyd** |
| I asesu a phenderfynu ar y canlynol:<br>1. Y gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid.<br>2. Effaith y gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed; a ydynt yn gadarn, yn effeithiol ac yn gyson, yn ymyrryd ac yn atal unigolyn ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, ac yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc.<br>3. Ymwybyddiaeth, profiadau a barn darparwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid allweddol, a phobl ifanc 18-25 oed o'r gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac unrhyw welliannau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol.<br>4. Effaith y gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ddiogelu pobl ifanc 18-25 oed sy'n agored i niwed, ar draws ardal Dyfed-Powys; sef y rhai sydd mewn perygl o droseddu ac erledigaeth. |
| **Cwmpas / camau gweithredu** |
| **I MEWN**<br>1. Mapio gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddarperir gan yr heddlu a phartneriaid.<br>2. Dadansoddi data troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol Heddlu Dyfed-Powys, gan ganolbwyntio ar bobl dan amheuaeth / troseddwyr 18-25 oed. Cynnwys cymhariaeth o ddata Heddlu Dyfed-Powys a data cenedlaethol, a chymhariaeth o ddata Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer ardaloedd y gwyddys eu bod wedi cael buddsoddiad ar gyfer gweithgareddau ymyrraeth / atal, a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny.<br>3. Dadansoddi canlyniadau troseddau; yn benodol, y defnydd o Ganlyniad 22: *Gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth.* Cynnwys cymhariaeth o ddata Heddlu Dyfed-Powys a data cenedlaethol.<br>4. Dadansoddi'r defnydd o benderfyniadau y tu allan i'r llys. Cynnwys cymhariaeth o ddata Heddlu Dyfed-Powys a data cenedlaethol.<br>5. Ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>6. Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch effeithiolrwydd a chysondeb gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed.<br>7. Ymgysylltu â phobl ifanc 18-25 oed ynghylch eu hymwybyddiaeth, eu profiadau a'u barn am wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>8. Ymgysylltu â phreswylwyr mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu sydd wedi'u targedu wedi'u hariannu, fel Premier League Kicks, ac mewn ardaloedd â phroblemau gwrthgymdeithasol.<br>9. Ystyried canfyddiadau hapsamplu a chraffu presennol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phanel Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys yn ymwneud â gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed. |

| |
|---|
| 10. Hapsamplu gweithgareddau craffu i adolygu achosion sy'n cynnwys pobl ifanc 18-25 oed, gan ganolbwyntio ar y gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ystyriwyd ac a ddefnyddiwyd, a diogelu pobl ifanc agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu a/neu erledigaeth.<br><br>**ALLAN**<br>1. Gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer plant dan 18 oed.<br>2. Archwiliad llawn o achosion troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys pobl ifanc 18-25 oed.<br>3. Ansawdd y cyswllt â'r heddlu.<br>4. Ansawdd cymhwyso rheolau cofnodi troseddau, a chydymffurfedd â nhw.<br>5. Safonau ymchwilio.<br>6. Hyfforddiant Heddlu Dyfed-Powys sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>7. Gweledєdd swyddogion mewn perthynas ag atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **AELODAETH Y PWYLLGOR DETHOL** |
| 1. Cadeirydd: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>2. Dirprwy Gadeirydd: Prif Weithredwr a Swyddog Monitro<br>3. Prif Swyddog Cyllid<br>4. Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau<br>5. Cynrychiolydd Panel yr Heddlu a Throseddu<br>6. Cadeirydd / Cynrychiolydd y Cyd-bwyllgor Archwilio<br>7. Cynrychiolydd Llysgenhadon Ieuenctid<br>8. Cynrychiolydd y Panel Sicrhau Ansawdd<br>9. Cynrychiolydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa<br>10. Cynrychiolydd Panel Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys<br>11. Aelodau annibynnol, yn cynnwys cynrychiolwyr Hwb Doeth Dyfed-Powys, Comisiynydd Plant Cymru, 'Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru', a Senedd Ieuenctid Cymru.<br>12. Cynrychiolydd o'r byd academaidd ac ymchwil |
| **YSGRIFENYDDIAETH** |
| Mae gweithgor Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad cyntaf. Wedi'u henwebu gan Dîm yr Uwch-reolwyr, dyma'r aelodau:<br>• Hannah Hyde, Cynghorydd Polisi<br>• Sarah Francis, Cynghorydd Polisi<br>• Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth<br>• Sophie Morgan, Swyddog Cymorth Gweithredol<br>• Emily Wheeler, Cynghorydd Ymgysylltu<br>• Anna Bowden, Swyddog Comisiynu a Chymorth Partneriaethau<br><br>Bydd yr unigolion uchod yn gyfrifol am y canlynol:<br>• Cynllunio a rheoli ymchwiliadau;<br>• Ymgymryd â'r gwaith maes a amlinellir isod, a nodi'r canfyddiadau;<br>• Cefnogi aelodau'r Pwyllgor Dethol;<br>• Gweinyddu cyfarfodydd; a<br>• Drafftio papurau a datblygu'r adroddiad ymchwiliad trosfwaol. |
| **PROSES / AMSERLEN Y PWYLLGOR DETHOL** |

Bydd y cadeirydd yn cynnal pum cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol, a dau wrandawiad o'r Pwyllgor Dethol rhwng mis Mai 2025 a mis Ebrill 2026.

Bydd y gwrandawiadau'n cael eu recordio a'u cyhoeddi.

Yn eu cyfarfod cyntaf, bydd aelodau'r Pwyllgor Dethol yn ystyried a fydd gwrandawiadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, ar-lein, neu mewn dull hybrid.

Mae amserlen fesul mis wedi'i chyfleu yn y *delweddau* trosodd.